

**CABINET
COFNODYDD RECORDIAD PENDERFYNIAD****PENDERFYNIAD PENDERFYNWYD AR: Ddydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021****DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Ddydd Gwener 6^{ed} Awst 2021**

Mae penderfyniadau a wneir gan aelodau cabinet llawn ac aelodau cabinet unigol yn destun "Galw i Mewn" gan y Pwyllgor Dethol priodol. Pe bai penderfyniad yn destun galw i mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodwyd uchod a bydd yn cael ei gyflwyno eto yn ddiweddarach.

AELODAU CABINET YN BRESENNOL:

Cynghorwyr Sir L. Dymock, R.J.W. Greenland, R. John, P. Jones, S. Jones, P. Murphy, J. Pratt

AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:

Cynghorydd Sir S. Howarth

SWYDDOGION YN BRESENNOL

Paul Matthews, Peter Davies, Will McLean, Matt Phillips, Jonathan Davies, Sian Hayward, Richard Jones, Richard Williams

	Teitl	Pwrpas, Ymgynghoriad ac Awdur	Datganiad Buddiannau	Penderfyniad
	Ymddiheuriadau am absenoldeb			
3a	MONITRO REFENIW A CHYFALAF 2021/22 DATGANIAD RHAGOLWG ALLDRO - MIS 2	Fel y nodwyd yn yr adroddiad		Datryswyd: <ul style="list-style-type: none">Mae'r Cabinet yn cydnabod diffyg rhagolwg refeniw net cyffredinol ym mis 2 o £9.02m, y gellir ei briodoli i'r diffyg a ragwelir o £6.48m sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r pwysau ariannol eithriadol sydd ynghlwm wrth Coronafeirws (COVID-19), gyda £2.53m arall yn ymwneud â'r pwysau ar ddarpariaeth gwasanaeth craidd y Cyngor.Bod y diffyg a ragwelir o ran darparu gwasanaeth craidd o £2.53m yn cael ei reoli trwy gynllun adfer cyllideb ddi-oed sy'n cydnabod y perygl y bydd gostyngiadau cost wedi'u targedu a'u cynllunio yn heriol yn yr amgylchedd gweithredu presennol ac o gofio y bydd y Cyngor bob amser yn ceisio lleihau'r effaith ar ddarparu gwasanaeth.Y gellir sicrhau'r Cabinet yn rhesymol ar sail deialog barhaus â Llywodraeth Cymru a'r cyllid a gafwyd ers dechrau'r pandemig, y bydd holl bwysau costau a cholledion incwm cysylltiedig COVID-19 sy'n gymwys i gael eu talu gan gronfa Caledi COVID-19 Llywodraeth Cymru wedi'i ariannu hyd ddiwedd Medi 2021.Mae'r Cabinet yn nodi bod pwysau costau a cholledion incwm sylweddol yn gysylltiedig â COVID-19 yn parhau ar ôl diwedd Medi 2021 o oddeutu £2.5m nad oes ganddynt unrhyw ymrwymiad cyllid ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Neilltuodd y Cyngor arian wrth gefn yn ochelgar ar ddiwedd 2019/20 a 2020/21, sef cyfanswm o £2.6m ar gyfer pwysau penodol sy'n gysylltiedig â COVID-19 nad oeddent eto i'w gwireddu ac os bydd ymrwymadau cyllido gan Lywodraeth Cymru yn methu â chyflawni'r gwariant ychwanegol a cholledion incwm. O ystyried lefel gymharol isel o yswiriant wrth gefn y Cyngor, a'r heriau ariannol dros y

tymor canolig a thu hwnt, dylid ystyried bod defnyddio'r cyllid hwn yn ddewis olaf llwyr ar ôl dihybyddu'r holl bosibiliadau amgen eraill.

- Er bod y Cyngor yn ddiolchgar am yr ymrwymadau cyllido a wnaed hyd yma gan Lywodraeth Cymru trwy gronfa Caledi COVID-19 hyd ddiwedd Medi 2021, bydd y Cabinet yn ceisio cyflwyno sylwadau cryf i Lywodraeth Cymru am eglurder pellach ar gyllid ar gyfer y pwysau parhaus ar ôl mis Medi, y ddau ar ffurf parhau i ymateb i effaith uniongyrchol y pandemig ond yr un mor bwysig, effaith anuniongyrchol ehangach a pharhaol y pandemig ar wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig lle mae hyn bellach yn dod yn amlwg ym meysydd Digartrefedd, Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion ac anghenion dysgu ychwanegol Plant.
- Bod y Cabinet yn cydnabod y perygl parhaus o ganlyniad disgwylidig trafodaethau cyflog ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu ac y bydd hyn yn peri pwysau pellach os yw dyfarniadau cyflog yn ychwanegol at yr 1% y cyllidwyd ar ei gyfer. Yr arwyddion cyfredol yw y byddwn yn gweld o leiaf 1.75% o gynnydd mewn cyflog athrawon gydag effaith o fis Medi 2021, ac effaith blwyddyn lawn o gynnydd o 1.5% o leiaf mewn staff nad ydynt yn athrawon. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ragwelir unrhyw arian ad-daliadol ac o gofio bod y Gweinidog wedi cadarnhau trwy'r taliad terfynol bod hyn eisoes wedi ystyried unrhyw ddyfarniad cyflog dilynol.
- Mae'r Cabinet yn cydnabod natur anghyffredin amgylchedd gweithredu presennol y Cyngor o ganlyniad i'r pandemig ac yn derbyn y bydd yn beth amser nes bydd yr effaith ehangach a pharhaol ar ddarparu gwasanaeth yn dangos ei hun yn llawn.
- Bod yr Aelodau'n nodi'r rhagolwg o gyflawni 95% o'r arbedion gorfodol wedi'u cyllidebu fel y manylir yn atodiad 3 yr adroddiad ac fel y cytunwyd gan y Cyngor llawn o'r blaen a'r camau adferol/arbedion ymhlyg a gynhwyswyd yn y alldro ariannol i wneud iawn am oddeutu 5% o arbedion (£229k) yn cael eu hadrodd fel rhai sydd wedi'u gohirio neu'n anghyraeddadwy gan reolwyr gwasanaeth.
- Mae'r Cabinet yn nodi maint y symudiadau a ragwelir yn nefnydd cronfeydd wrth gefn Ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn atodiad 1 yr adroddiad sy'n cael eu llywio a'u gyrru gan y cynlluniau buddsoddi mewn ysgolion a gefnogwyd gan y gefnogaeth grant hwyr sylweddol a digynsail a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ar ddiwedd 2020/21.
- Mae'r Cabinet yn ystyried y gwariant alldro cyfalaf a ragwelir o £79.2m fel yr amlinellir yn atodiad 1 yr adroddiad, gan nodi'r anawsterau wrth ragweld cynlluniau gwariant cyfalaf mor gynnar yn y flwyddyn ariannol a'r tebygolrwydd y bydd llithriant yn digwydd wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen oherwydd y cyfyngiadau ac effaith parhaus mewn perthynas â COVID-19.
- Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r gyllideb Gyfalaf fel y'u rhestrir yn atodiad 4 yr adroddiad sy'n deillio o hysbysu dyfarniadau grant cyfalaf allanol gwerth £3.58m.

Gwybodaeth Ychwanegol:				
3b	CYDWEITHREDU RHANBARTHOL: BWRDD GWASANAETH CYHOEDDUS GWENT	Fel y nodwyd yn yr adroddiad		Datryswyd: Mae'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Gwent a datblygu trefniadau partneriaeth yn Sir Fynwy wedi hynny.
Gwybodaeth Ychwanegol:				
3d	DIOGELWCH A DYGNWCH TGCh	Fel y nodwyd yn yr adroddiad		Datryswyd: Bod y Cabinet yn cytuno ar yr argymhellion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.
Gwybodaeth Ychwanegol:				